# EISTEDDFOD GADEIRIOL TREFEGLWYS 2025

Cynhaliwyd y 108fed Eisteddfod a drefnwyd gan Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys ar ddydd Sadwrn Hydref 4ydd yn y Neuadd Goffa yn Nhrefeglwys.
Y Beirniaid eleni oedd, Cerdd – Gareth Wyn Thomas Rhydaman, Llefaru – Elen Rhys Caerdydd, Llên – Arwyn Groe, Dolanog. Ruby Grigg o'r Drenewydd bu'n beirniadu'r Dawnsio. Roedd y gwaith llaw i'w weld yng nghefn y Neuadd a'r Beirniaid yn yr adrannau yma oedd, Crefftau a Gwniadwaith – Pippa Sillitoe, Trefeglwys, gydag Eryl Douglas Jones, Trefeglwys yn beirniadu'r Llawysgrifen.
Bu'r Beirniaid yn brysur iawn trwy'r dydd yn arbennig yng nghyfarfod y prynhawn gyda hyd at deuddeg o blant mewn rhai cystadlaethau. Cafwyd cefnogaeth dda iawn o'r ysgol leol, Ysgol Dyffryn Trannon. Enillwyd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol gan Mabon Davies o Llidiartywaen, a Thlws Catrin Alwen am yr unawdydd gorau yng nghyfarfod y pnawn gan Mari Wyn Edwards o'r Fan - mae'n siwr bydd dyfodol disglair i'r ddau ohonynt. Cadi Davies enilloddd y cwpan yn yr adran grefftau am greu llun oedd yn portreadu Gwledydd y Byd.
Bethan Lloyd Owen, Anwen Orrels a Gareth Jenkins fu yn cadw trefn ar cystadlaethau'r llwyfan, gyda Fflur Davies, Llidiartywaen yn cyfeilio yng nghyfarfod y prynhawn a Sian Davies, Penybontarogwr yng nghyfarfod yr hwyr.
Enillydd Tlws Coffa Gwynfryn Evans eleni oedd Heledd Besent o Aberaeron am ei chyfraniad wrth ganu ar yr unawd Gymraeg
Cynigwyd Tlws y Gadair eleni am gerdd ar y testun Dychwelyd. Daeth pedair ar ddeg o gerddi i fewn i'r gystadleuaeth gydag Eifion Daniels, Blaenffos yn ennill. Bu'r gerdd yn son am ei atgofion wrth fynd yn ôl at fferm ei fagwriaeth gan fynd a'i wyrion gydag ef.
Y Beirniad Arwyn Groe bu'n arwain seremoni'r cadeirio, ac ar ôl y feirniadaeth cyrchwyd y Bardd buddugol i'r llwyfan gan Susan Williams a Joyce Smithies. Ceidwad y Cledd oedd Iwan Owen gydag Owen Lloyd Jones yn canu cân y cadeirio. Bu Bethan Lloyd Owen a Margaret Jones yn cyfarch y Bardd.
Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd Professor Neil Evans o Brifysgol Glasgow. Yn enedigol o Geseilfa Llawryglyn, bu yn sôn am ei fagwraith a'i atgofion o fynychu'r Eisteddfod, yn arbennig pan ddaeth a'i fab flynyddoedd yn ôl i gystadlu ar yr unawd offerynnol ar y bagpipes ! Dymunodd pob lwc i'r Eisteddfod yn y dyfodol.
Ar ddiwedd y noswaith gwnaed y diolchiadau gan Cadeirydd y Pwyllgor Iwan Owen, - yn sicr cafwyd diwrnod i'w gofio.

Canlyniadau. (Y plant o Ysgol Dyffryn Trannon Trefeglwys)

| | |
|---|---|
| Unawd oed Meithrin | 1. Erin Davies |
| | 2. Leusa Davies |
| | 3. Frankie Davies |
| Llefaru oed Meithrin | 1. Erin Davies |
| | 2. Rosie Richards |
| | 3. Rowan Barnes a Leusa Davies |
| Unawd Bl 1 a 2 | 1. Ynyr Davies |
| | 2. Harper Powell |
| | 3. Iris Derby |
| Llefaru Bl 1 a 2 | 1. Ffion Davies |
| | 2. Ynyr Davies |
| | 3. Harper Powell |

| | |
|---|---|
| Unawd Bl 4 ac Iau | 1. Alys Jerman  Ysgol Dafydd Llwyd |
| | 2. Mari Wyn Edwards, Y Fan |
| | 3. Mabon Davies |
| Llefaru Bl 4 ac Iau | 1. Mabon Davies |
| | 2. Mari Wyn Edwards |
| | 3. Ina Penri |
| Unawd Bl 6 ac Iau | 1. Lois Owen  Ysgol Dafydd Llwyd |
| | 2. Elin Williams |
| Llefaru Bl 6 ac Iau | 1. Elin Williams |
| | 2. Lois Owen |
| Unawd Piano | 1. Fenn, Ysgol Penygloddfa |
| Côr Plant | 1. Parti Ysgol Dyffryn Trannon |
| Parti Cydlefaru | 1. Parti  Dyffryn Trannon |
| Unawd Offerynnol | 1. Fenn, Ysgol Penygloddfa |
| Dawns Gyfoes Unigol Bl 6 ac Iau | 1. Tallulah, Ysgol Dafydd Llwyd |
| Grwp Ddawns Gyfoes | 1. Grwp Tallulah |
| | 2. Y.D.T.Stars |
| | 3. Winnie a Tess |
| Deuawd dan 18 | 1. Mari ac Alys |
| Unawd Offerynol dan 18 | 1.Holly Humphreys  Clatter |
| Llefaru i Ddysgwyr | 1. Gillian Evans  Trefeglwys |
| | 2. Pippa Sillitoe,  Trefeglwys |
| Unawd o Sioe Gerdd | 1. Gillian Evans |
| | 2. Owen Lloyd Jones, Clatter |
| Canu Emyn dros 60 | 1. Gwynn Jones    Llanafan |
| | 2.  Gillian Evans |
| | 3. Owen Lloyd Jones |
| Côr | 1. Cor Arwystli   Llanidloes |
| Her Unawd | 1. Heledd Bessant  Aberaeron |
| Her Lefaru | 1. Heledd Bessant |
| | 2. Maria Evans       Caerfyrddin |
| Unawd Gymraeg | 1. Heledd Bessant |
| | 2. Aled Jones  Commins Coch |
| Darllen o'r Beibl | 1. Maria Evans |
| | 2. Pippa Sillitoe |
| Cân Werin | 1. Heledd Bessant |
| | 2. Owen Lloyd Jones |

| | |
|---|---|
| Cerdd y Gadair | Eifion Daniels, Blaenffos |
| Englyn | Huw Alun Roberts, Yr Wyddgrug |
| Cyfansoddi Emyn | Awen Powell, Yr Wyddgrug |
| Cân Ddigri | John Meurig Edwards, Aberhonddu |
| Stori Fer | John Meurig Edwards, Aberhonddu |
| Limrig | Alan Iwi, Didcot |
| Cyfansoddi Emyn Dôn | Rhiannon Lewis, Cwmann |